| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **DYDDIAD** | 21 Mehefin 2013 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2012/13, a<br>• Ffurflen Swyddogol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL NEWYDD

1.1 Yn ystod 2012/13, daeth i'n sylw fod gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â Phwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant a mantolen.

1.6 Ystyrir y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, oherwydd trosiant is na £1m, i fod yn "Is-Gyd-Bwyllgor".

1.7 Ar gyfer "Is-Gyd-Bwyllgor", rhaid cwblhau ffurflen swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd hwnnw yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

1.8 Mae'r ffurflen yma wedi'i ddyfeisio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'n llawer llai trafferthus (a rhatach) i'w gynhyrchu na fyddai datganiadau statudol llawn.

**2. CYFRIFON 2012/13**

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2012/13 yma fel Atodiad A(i).** Hefyd, cyflwynir cyfrifon cyffelyb am 2011/12, sy'n hwyluso cymariaethau (Atodiad A(ii)). Mae'r rhain i gyd ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen swyddogol am 2012/13, wedi'i gwblhau a'i ardystio cyn yr archwiliad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol,** sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Bydd rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad "ISA260" (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) i'w gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Medi 2013.

2.4 Bu llithriad i'r rhaglen waith am amryw o resymau sydd wedi golygu tanwariant yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/13 ac sydd ag ymhylygiadau ar drefniadau ariannu'r ddau Gyngor yn 2013/14.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2012/13 – Atodiad A(i)
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2011/12 – Atodiad A(ii)
- Ffurflen Swyddogol ar gyfer Archwiliad 2012/13 – Atodiad B